

Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru

Llinellau Craidd y Cymoedd

2023 Datganiad Rhwydwaith CVL

Adran 1 yn Unig

Rhifyn 1.0

Rheoli Fersiynau

Version	Date	Description of change
2023 CVL Drafft Datganiad Rhwydwaith 0.1	August 2021	Dogfen ymgynghori
2023 CVL Mater Datganiad Rhwydwaith1.0	November 5 2021	rhifyn cyntaf yn dilyn ymgynghoriad gan ymgorffori adborth

Cynnwys

1. Gwybodaeth gyffredinol

1. Gwybodaeth gyffredinol

1.1 Rhagymadrodd

TfW sy'n berchen ar Rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ac mae wedi'i brydlesu i'r IM CVL. IM CVL yw Rheolwr Seilwaith y Rhwydwaith CVL at ddibenion y Rheoliadau Rheilffyrdd ac mae wedi cyhoeddi'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn mewn perthynas â'r Rhwydwaith CVL.

Mae IM CVL yn gyfrifol am weithredu, cynnal a chadw, adnewyddu ac amnewid y seilwaith rheilffyrdd ar y Rhwydwaith CVL yn unol ag amodau ei drwydded rhwydwaith, am reoli a diogelwch yr holl draffig trên yn ogystal ag am gymryd rhan yn natblygiad y seilwaith.

Mae'r Rhwydwaith CVL yn cynnwys twneli, trac ac isadeiledd cysylltiedig. Mae'r trac yn cwmpasu'r llwybrau sy'n cael eu dangos ar fap y Rhwydwaith CVL ac yn cysylltu â Rhwydwaith Network Rail mewn dau bwynt cysylltu ar wahân. Mae un pwynt cysylltu i'r gogledd o Orsaf Caerdydd Canolog ac mae'r pwynt cysylltu arall i'r gogledd o Orsaf Parc Ninian.

Mae 55 o orsafoedd wedi eu gwasanaethu gan y Rhwydwaith CVL. Ar hyn o bryd mae'r Gorsafoedd CVL yn cael eu prydlesu gan IM CVL i TfWRL (fel perchennog cyfleuster y Gorsafoedd CVL). Cyfeiriwch at adran 1.6.2o'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn i gael manylion cyswllt TfWRL.

Os oes gan Fentr Reilffordd sy'n ceisio mynediad i'r Rhwydwaith CVL gytundeb mynediad trac presennol gyda Network Rail, bydd angen newid y cytundeb mynediad trac presennol gyda Network Rail er mwyn adlewyrchu gweithrediad y gyfundrefn berfformiad sy'n cael ei gweinyddu gan Network Rail ar ran IM CVL.

Yn ystod y Pandemig Covid -19 yn 2020/21, roedd effeithiau ar ddefnydd rheilffyrdd a arweiniodd at newid mawr i'r amserlen a ddefnyddiwyd yn flaenorol a defnydd o'r rhwydwaith. Er bod y newidiadau hyn yn annisgwyl, fe'u rheolwyd yn unol â chod y rhwydwaith CVL gan ddefnyddio trefniadau cynllunio tymor byr. Bydd parhau i leihau effeithiau gwasanaeth ac Ad-hoc ar wasanaeth oherwydd prinder staff sy'n ymwneud â chriw trenau'n hunan-ynysu yn cael ei reoli yn unol â threfniadau cynllunio tymor byr (Cod Rhwydwaith CVL Rhan D). Bydd unrhyw newidiadau parhaol i hawliau mynediad yn parhau i gael eu rheoli yn unol â Chod Rhwydwaith CVL.

1.2 Pwrpas y Datganiad Rhwydwaith CVL

Pwrpas y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yw hysbysu Ymgeiswyr, yr awdurdodau perthnasol a phartïon eraill a chanddynt fuddiant am y

Rhwydwaith CVL a'r telerau ac amodau ar gyfer dyrannu capasiti a defnydd mewn perthynas â'r Rhwydwaith CVL.

Mae'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn cyflwyno'r gwasanaethau y mae IM CVL yn eu cynnig, gyda gwybodaeth ynghylch ble mae gwasanaethau o'r fath yn hygyrch, sut mae dyrannu gwasanaethau'n gweithredu, pa daliadau sy'n berthnasol a'r amodau sy'n berthnasol ar gyfer cael mynediad at wasanaethau o'r fath.

Datblygwyd y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn unol â'r Rheoliadau Rheilffyrdd. Yn benodol, mae'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y Rhwydwaith CVL, amodau mynediad at y Rhwydwaith CVL gan weithredwyr trafniadaeth, rheolau, gweithdrefnau a meini prawf ar gyfer dyrannu capasiti a thaliadau ar gyfer hyn oll.

Ymgysylltodd IM CVL yn agos â'r diwydiant cyn cyhoeddi'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.

1.3 Agweddau Cyfreithiol

1.3.1 Fframwaith cyfreithiol

Mae fframwaith cyfreithiol diwydiant rheilffordd Prydain Fawr wedi ei lywodraethu'n bennaf gan Ddeddf Rheilffyrdd 1993, Deddf Rheilffyrdd 2005, y Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 ac ystod o ddeddfwriaeth eilaidd.

Mae'r rheilffyrdd hefyd yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliadau Rheilffyrdd a'r Rheoliadau Rheilffyrdd (Trwyddedu). Mae'r rheoliadau hyn yn nodi gofynion amrywiol gan gynnwys:

- dyrannu capasiti seilwaith rheilffyrdd.
- codi taliadau am ddefnyddio seilwaith rheilffyrdd
- trwyddedu Mentrau Rheilffyrdd
- cynhyrchu a chynnwys datganiadau rhwydwaith; a
- rheoli diogelwch

Fel Rheolwr Seilwaith, mae'r IM CVL yn cynnal ac yn datblygu'r Rhwydwaith CVL ac mae ganddo drefniadau ar waith i banel o'r enw Panel Sicrwydd Seilwaith Amey Cymru (AIWAP) wirio diogelwch seilwaith newydd neu seilwaith sydd wedi'i newid cyn iddo gael ei roi mewn gwasanaeth ar y Rhwydwaith CVL, cyhyd â nad yw diogelwch seilwaith o'r fath eisoes wedi'i

asesu gan y panel a sefydlwyd gan Network Rail o'r enw Panel Derbyn Network Rail.

Bydd IM CVL yn gweithredu'r Rhwydwaith CVL yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

1.3.2 Statws cyfreithiol ac atebolrwydd

Bwriedir y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn i fod yn ffynhonnell wybodaeth ar gyfer cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid posibl IM CVL. Oherwydd hynny, bwriedir iddo fod yn ddogfen addysgiadol yn unig ac yn unol â hynny nid oes ganddo rym contractiol. Ni fwriedir iddo fod yn wahoddiad i drin neu i fod yn gynnig i ymrwymo i gontract.

Fe wnaed ymdrechion rhesymol i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn gywir. Nid yw'r IM CVL yn derbyn unrhyw atebolrwydd am wallau, hepgoriadau neu anghywirdebau ynghylch gwybodaeth gan bartïon allanol. Paratowyd y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn er budd cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid posibl, er mwyn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Rheilffyrdd. Fe'i bwriedir iddo fod yn addysgiadol, ond ni ddylai cwsmeriaid (rhai presennol a rhai posibl) ddibynnu ar unrhyw eitem o wybodaeth sydd ynddo heb wirio'n gyntaf gyda ni i ba raddau y mae'n briodol gwneud hynny.

Bydd unrhyw wallau, anghysondebau neu hepgoriadau yn y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn a hysbysir i'r IM CVL yn cael eu hadolygu a (lle bydd yn briodol) yn cael eu cywiro yn rhifyn nesaf y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.

Ni all IM CVL dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am gynnwys unrhyw wefan allanol neu ddogfen trydydd parti y cyfeirir ati yn y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.

1.3.3 Gweithdrefn apelio

Mae gan "Fuddiolwr Mynediad" sy'n barti i Gytundeb Mynediad Trac gyda'r IM CVL neu "Barti Mynediad Posibl" (fel y diffinnir telerau o'r fath yn Rhan A o'r Cod Rhwydwaith CVL) hawl i herio penderfyniadau a wneir gan yr IM CVL mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan Ran D o'r Cod Rhwydwaith CVL o ran:

- amserlennu;
- y Datganiad Mynediad Peirianeg CVL; a'r
- Rheolau Cynllunio Amserlen.

Mae'r panel perthnasol yn gwranddo ar unrhyw heriau o'r fath o dan Reolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL. Cyfeiriwch at adran **Error! Reference source not found.** o'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn i gael rhagor o fanylion ynghylch Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL, sydd ar gael ar [fel atodiad i God Rhwydwaith CVL](#).

Os yw unrhyw Ymgeisydd yn credu iddo gael ei drin yn annheg, ei fod wedi dioddef gwahaniaethu neu ei fod wedi'i drallodi fel arall gan y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn, neu unrhyw fater arall a bennir yn rheoliad 32(2) o'r Rheoliadau Rheilffyrdd, gellir gwneud apêl i'r ORR.

Byddai'r IM CVL yn gwahodd unrhyw un sydd â phryderon ynghylch y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn neu'r materion y cyfeirir atynt ynddo, i'w codi gyda'r IM CVL (gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar gyfer yr IM CVL a nodir yn adran 1.6.1 o'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn) yn y lle cyntaf, fel y gellir ystyried sut y gellir ymdrin â'r pryderon hynny.

1.4 Strwythur y Datganiad Rhwydwaith CVL

Mae strwythur y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn dilyn Canllaw Strwythur a Gweithredu Cyffredin y Datganiad Rhwydwaith, a fabwysiadwyd gan Reolwyr Seilwaith Ewropeaidd sy'n perthyn i RailNetEurope (RNE) (gweler adran 1.7.2 isod). Mae'r Canllaw Strwythur a Gweithredu Cyffredin y Datganiad Rhwydwaith yn cael ei ddiwygio yn ôl yr angen ac mae'r fersiwn ddiweddaraf ar gael ar y wefan RNE yn: <http://www.rne.eu/organisation/network-statements/>.

Nod y Canllaw Strwythur a Gweithredu Cyffredin yw y gall pob ymgeisydd a pharti a chanddo fuddiant ganfod yr un wybodaeth yn yr un lle ym mhob Datganiad Rhwydwaith.

Felly mae'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn wedi'i strwythuro mewn saith adran sy'n ffurfio'r brif ddogfen ag atodiadau yn rhoi manylion pellach:

- **Mae Adran 0**(Gwybodaeth Gyffredinol) - yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn a chysylltiadau perthnasol.
- **Mae Adran** Error! Reference source not found. (Seilwaith) – yn disgrifio prif nodweddion technegol a swyddogaethol y Rhwydwaith CVL.
- **Mae Adran** Error! Reference source not found. (Amodau Mynediad) - yn diffinio'r gofynion cyfreithiol a'r amodau mynediad i'r Rhwydwaith CVL.

- **Mae Adran** Error! Reference source not found. (Dyrannu Capasiti) - yn nodi'r weithdrefn ar gyfer dyrannu Llwybrau Trên.
- **Mae Adran** Error! Reference source not found. (Gwasanaethau a Thaliadau) - yn rhoi trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir gan IM CVL yn ogystal â'r taliadau am y gwasanaethau hyn. Mae'r cynlluniau cymhelliant hefyd wedi'u cynnwys yn yr adran hon.
- **Mae Adran** Error! Reference source not found. (Gweithrediadau) - yn disgrifio'r gweithdrefnau rheoli traffig, gan gynnwys y gweithdrefnau i'w dilyn os bydd digwyddiadau.
- **Mae Adran** Error! Reference source not found. (Cyfleusterau Gwasanaeth) - yn darparu trosolwg o'r cyfleusterau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r Rhwydwaith CVL.

1.5 Cyfnod Dilysrwydd, Diweddarau a Chyhoeddi

1.5.1 Cyfnod dilysrwydd

Mae'r Rheoliadau Rheilffyrdd yn ei gwneud yn ofynnol i'r IM CVL fel Rheolwr Seilwaith gyhoeddi datganiad rhwydwaith bedwar mis cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am gapasiti seilwaith (y Dyddiad Blaenoriaeth ar gyfer yr amserlen berthnasol). O ganlyniad, mae'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn i'w ddefnyddio ar gyfer ceisiadau capasiti ar gyfer blwyddyn amserlen 2023 (11 Rhagfyr 2022 i 10 Rhagfyr 2023).

1.5.2 Diweddarau

Bydd yr IM CVL yn diweddarau'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn ac yn cyhoeddi'r fersiwn wedi'i diweddarau ar y [Wefan IM](#) yn ôl yr angen i gynnwys gwybodaeth ddiwygiedig neu ychwanegol a/neu adlewyrchu newidiadau sylweddol o bryd i'w gilydd.

Yn ogystal â'r diweddariadau hyn, bydd yr IM CVL yn cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddarau o'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn unwaith y flwyddyn. Lle bydd angen, bydd yr IM CVL yn ymgynghori cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol.

Ar ôl i ddogfen gael ei lawrlwytho o'r Wefan IM, bydd yn syrthio y tu allan i unrhyw broses rheoli newid a gynigir gan yr IM CVL.

Sylwch fod llawer o'r dogfennau ategol y cyfeirir atynt yn y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn ddarostyngedig i'w proses rheoli newid eu hunain.

1.5.3 Cyhoeddi

Er mwyn i'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn fod yn ddogfen hawdd ei defnyddio, mae'n hwyluso mynediad at wybodaeth bellach trwy ddolenni i wefannau neu fanylion cyswllt sy'n ychwanegol at y wybodaeth a nodir ynddo.

Bydd yr IM CVL yn cadw'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn gyfredol ac yn ei gwneud yn glir pan fydd diweddarau wedi digwydd (trwy weithredu rheolaeth fersiwn).

Cyhoeddir y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn y Saesneg a'r Ffrangeg. Mae'r ddau fersiwn ar gael yn rhad ac am ddim mewn fformat electronig ar y [Wefan IM](#). Yn ogystal â Saesneg a Ffrangeg, gall IM CVL ddewis cyhoeddi'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn mewn ieithoedd eraill o bryd i'w gilydd.

Er bod IM CVL wedi cymryd gofal i sicrhau bod holl fersiynau iaith y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn wedi'u halinio, os bydd anghysondebau neu anawsterau dehongli rhwng y fersiynau Saesneg a'r rhai nad ydynt yn Saesneg, y fersiwn Saesneg sy'n drech.

1.6 Cysylltiadau

1.6.1 Ar faterion sy'n ymwneud â'r Rhwydwaith CVL (gan gynnwys sylwadau ar y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn)

Seilwaith Amey Cymru / Amey Infrastructure Wales Limited

Er Sylw: Cyfarwyddwr Rheoli Seilwaith
Cyfeiriad: Depo Seilwaith CVL Trafnidiaeth Cymru
Ystad Ddiwydiannol Treforest, Heol Gwent
Pontypridd CF37 5UT
E-bost: CVLTrackAccess@amey.co.uk

1.6.2 Ar faterion yn ymwneud â mynediad i Orsafoedd CVL

Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf. (TfWRL) fel Perchennog Cyfleuster yr Orsaf

Er Sylw: Chris Dellard, Rheolwr Strategaeth Mynediad Rhwydwaith
Cyfeiriad: 3 Llys Cadwyn
Pontypridd
Cymru
CF37 4TH
E-bost: Chris.Dellard@tfwrail.wales

1.6.3 Ar faterion yn ymwneud â Masnachfrait Cymru a'r Gororau

Trafnidiaeth Cymru (TfW)

Er Sylw: Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Cyfeiriad: 3 Llys Cadwyn
Pontypridd
Cymru
CF37 4TH
Gwefan: <https://trc.cymru/>

1.6.4 Ar faterion yn ymwneud â Gorsaf Caerdydd Canolog, Gorsafodded Network Rail eraill a mynediad trac i'r Rhwydwaith Network Rail

Ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â mynediad trac i deithwyr a Mentrau Rheilffyrdd posibl i deithwyr heb fasnachfrait:

Er Sylw: Henry Bates
Pennaeth Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid a Pholisi Cludo
Nwyddau
Cyfeiriad: Network Rail
Waterloo General Offices
Llundain SE1 8SW
E-bost: henry.bates@networkrail.co.uk

Ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â chwsmeriaid cludo nwyddau newydd:

Er Sylw: Guy Bates
Pennaeth Datblygu Busnes
Cyfeiriad: Network Rail
1 Eversholt Street
Llundain NW1 2DN
E-bost: guy.bates@networkrail.co.uk

1.6.5 Amserlennu

Er Sylw: Tîm Amserlen Weithio
Network Rail
Cyfeiriad: The Quadrant
Milton Keynes MK9 1EN
Ffôn: +44 (0) 7734 282514
E-bost: NRT-WTT@networkrail.co.uk

Gwefan: <https://www.networkrail.co.uk/running-the-railway/the-timetable/working-timetable/>

a'i chopïo at:

Seilwaith Amey Cymru / Amey Infrastructure Wales Limited

Er Sylw: Cyfarwyddwr Cynnal a Chadw Seilwaith
Cyfeiriad: Depo Seilwaith CVL Trafnidiaeth Cymru
Ystâd Ddiwydiannol Treforest, Heol Gwent
Pontypridd CF37 5UT
E-bost: CVLTrackAccess@amey.co.uk

1.6.6 Ar faterion yn ymwneud â thrwyddedau/esemptiadau/tystysgrifau diogelwch rheilffyrdd y DU

Er Sylw: Y Tîm Trwyddedu
Cyfeiriad: Swyddfa Rheilffordd a Ffordd
25 Cabot Square
Llundain E14 2QZ
E-bost: licensing.enquiries@orr.gov.uk
Gwefan: <http://ORR.gov.uk/>

1.6.7 Tystysgrifau Diogelwch

Er Sylw: Uwch Weithredwr: Caniatáu Diogelwch
Cyfeiriad: Swyddfa Rheilffordd a Ffordd,
3rd Floor, Mallard House, Kings Pool,
1-2 Peasholme Green,
Caerefrog, YO1 7PX
E-bost: ROGS@orr.gov.uk
Gwefan: <http://ORR.gov.uk/>

1.6.8 RSSB

Cyfeiriad: Bwrdd Diogelwch a Safonau'r Rheilffyrdd
The Helicon
One South Place
Llundain EC2M 2RB
Gwefan: <http://www.rssb.co.uk/>

1.6.9 Merthyr (De Cymru) Cyfyngedig (materion yn ymwneud â Phwynt Gwaredu Cwmbargoed)

Cyfeiriad: Pwynt Gwaredu Cwmbargoed
Heol Fochriw
Merthyr Tudful
Morgannwg CF48 4AE
Ffôn: +44 (0) 870 111 5600

1.6.10 HS1 Ltd (ar gyfer ymholiadau Siop Un Stop)

Cyfeiriad: 5ed Llawr
Kings Place
90 York Way
Llundain N1 9AG
Ffôn: +44 (0) 207 014 2700

1.7 Cydweithrediad rhwng Rheolwyr Seilwaith Ewropeaidd a Buddiolwyr Mynediad

1.7.1 Coridorau cludo nwyddau ar reilffyrdd

Dirymwyd Rheoliad (UE) Rhif 913/2010 yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020 gan y Rheoliadau Rheilffyrdd (Diwygiadau Amrywiol, Dirymiadau a Darpariaethau Trosiannol) (Ymadael â'r UE) 2020.

Nid yw'r Rhwydwaith CVL yn cynnwys nac yn rhan o unrhyw goridor cludo nwyddau o'r fath. Ar hyn o bryd mae Network Rail yn aelod o RNE

1.7.2 Rail Net Europe

Crëwyd RNE ym mis Ionawr 2004 ar fenter nifer o reolwyr seilwaith rheilffyrdd Ewropeaidd a chyrrff dyrannu a oedd am sefydlu sefydliad cyffredin ledled Ewrop i hwyluso eu busnesau rhyngwladol.

Mae RNE wedi ymrwymo i hwyluso traffig rhyngwladol ar seilwaith rheilffyrdd Ewrop. Mae'n darparu cefnogaeth i Fentrau Rheilffyrdd yn eu gweithgareddau rhyngwladol (ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr fel ei gilydd) ac yn ymdrechu i gynyddu effeithlonrwydd rheolwyr seilwaith Ewropeaidd a chyrrff dyrannu. Fel cymdeithas draws-Ewropeaidd, mae RNE yn chwarae rhan ganolog wrth annog y diwydiant i ddilyn rheolau cytûn, tryloyw ac anwahaniaethol yn y busnes rheilffyrdd rhyngwladol.

Gyda'i gilydd, mae aelodau RNE yn gwneud amodau trafndiaeth rheilffyrdd rhyngwladol yn fwy unffurf ac yn cyflwyno dull corfforaethol i hyrwyddo busnes rheilffyrdd Ewrop er budd y diwydiant rheilffyrdd cyfan ledled Ewrop.

Nid yw'r IM CVL yn aelod o RNE. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am RNE ar y wefan RNE yn: <http://www.rne.eu/organisation/rne-approach-structure/>.

1.7.3 Cydweithredu Rhyngwladol Arall

Mae RNE wedi sefydlu un pwynt cyswllt 'Siop Un Stop' (OSS) ym mhob aelod-wlad. Ar gyfer Prydain Fawr y pwyntiau cyswllt yw Network Rail ac HS1 Ltd. Gall pob cwsmer ddewis ei bwynt cyswllt OSS a ffefrir ar gyfer ei holl anghenion o ran gwasanaethau rheilffyrdd rhyngwladol.

Gellir canfod rhagor o wybodaeth yn: <http://www.rne.eu/organisation/oss-c-oss/>

O'r cwestiynau cychwynnol yn ymwneud â mynediad i'r rhwydwaith i geisiadau llwybr rhyngwladol ac adolygu perfformiad ar ôl rhediad trên - mae'r holl faterion hyn a mwy yn cael eu trin gan un pwynt cyswllt ar gyfer y daith drên ryngwladol gyfan er hwylustod y cwsmeriaid.

Felly gall cwsmeriaid i aelodau RNE sy'n rhedeg gwasanaethau rheilffyrdd rhyngwladol ddefnyddio bwndel gwasanaethau RNE OSS:

- rhwydwaith o bwyntiau cyswllt sy'n tywys cwsmeriaid trwy'r ystod gyfan o weithdrefnau: sicrhau mynediad i'r rhwydwaith, cynllunio trafndiaeth ryngwladol effeithlon, rheoli llwybrau trên rhyngwladol (ITPM) ac adolygu perfformiad ar ôl gweithredu trên. Mae amseroedd ymateb wedi'u safoni ar lefel sy'n gyfeillgar i gwsmeriaid - mae cyflawni'r lefelau gwasanaeth hyn yn cael ei brofi ar hyn o bryd.
- Mae arbenigwyr OSS wedi'u tynnu o faes gwerthiannau ac amserlennu yn uno eu harbenigedd yn y meysydd hyn i wasanaethu cwsmeriaid ynghyd â phwyntiau cyswllt OSS.
- Offer TG sy'n cynorthwyo Ymgeiswyr ymhellach trwy roi amcangyfrifon prisiau ar gyfer defnyddio seilwaith rheilffyrdd, trwy gydlynw prosesau archebu a chyflenwi llwybrau trên rhyngwladol, a thrwy dracio ac olrhain trenau rhyngwladol mewn amser real.

Mae'r rhestr o bobl gyswllt OSS a gwybodaeth bellach ar gael ar y wefan RNE: <http://www.rne.eu/organisation/oss-c-oss/>